

Rydym yn edrych am:

HYRWYDDWYR CYMUNEDOL I WEITHIO A CHYMUNEDAU I HYBU IECHYD GWELL!

Rydyn ni'n awyddus i recriwtio tîm o bum hyrwyddwr cymunedol i'n helpu gydag astudiaeth newydd o'r enw TIC-TOC.

Astudiaeth newydd yw TIC-TOC sy'n cynnwys ymgyrch gyhoeddus dros chwe mis i godi ymwybyddiaeth o symptomau cancer annelwig a chefnogi pobl i ofyn am gyngor gan eu meddyg teulu gyda'r symptomau hyn, â'r nod o wella canlyniadau cancer. Cyllidir TIC-TOC gan Ymchwil Cancer Cymru.

Rydyn ni'n awyddus i recriwtio pum hyrwyddwr cymunedol i'n helpu i rannu gwybodaeth am ymgyrch TIC-TOC i bobl sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Rydyn ni'n edrych am bobl:

- Sydd wedi'u lleoli yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Rondda; Taf-Elái; Merthyr; Cynon; a Phen-y-bont ar Ogwr).
- sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o grwpiau cymdeithasol, sefydliadau a chlybiau, neu sy'n barod i wneud hynny, yn ardal Cwm Taf Morgannwg.
- sy'n frwdfrydig, yn gyfeillgar ac sy'n hoffi cwrdd â phobl newydd. sy'n teimlo y gallan nhw fynd at bobl i siarad am ganser (byddwn yn darparu hyfforddiant i'ch helpu gyda hyn).
- sydd â defnydd o gyfrifiadur ac yn gwybod sut i'w ddefnyddio (gallai fod angen cynnal rhai digwyddiadau ar-lein oherwydd cyfyngiadau COVID-19).
- sy'n hunan-gymhellol.

See next page...



Dyletswyddau allweddol y rôl yw:

- **Dosbarthu deunyddiau ymgyrchu** i bobl yn y gymuned leol (e.e. rhoi posterï / taflenni mewn lleoedd yn y gymuned y gwyddoch fod llawer o bobl yn ymweld â nhw).
- **Cynnal digwyddiadau yn y gymuned ac ar-lein** - bydd hyn yn cynnwys siarad gyda phobl am symptomau canser annelwig a chefnogi pobl sydd â symptomau i ymgynghori â'u meddyg teulu. Efallai na fydd y rôl yn briodol i rywun sy'n cysgodi ar hyn o bryd oherwydd COVID-19 gan y bydd yn cynnwys cwrdd ag aelodau o'r gymuned wyneb yn wyneb.
- **Cydweithio â thîm yr astudiaeth** a mynychu cyfarfodydd yn bersonol / ar-lein lle bo angen.

Mae **defnydd o gar** hefyd yn hanfodol ar gyfer y rôl, a chaiff yr holl gostau teithio rhesymol eu talu.

Mae pump o'r rolau hyn ar gael, ac yn ddelfrydol rydyn ni'n chwilio am bobl o'r Ronda; Taf-Elái; Merthyr; Cynon; a Phen-y-bont ar Ogwr Gallai fod yn fanteisiol i'r rôl os gallwch sgwrsio yn Gymraeg ac yn Saesneg (nid yw hyn yn hanfodol).

Caiff hyfforddiant ar gyfer y rôl, deunyddiau ymgyrchu, ffôn symudol ac unrhyw Offer Amddiffyn Personol (PPE) (efallai y bydd angen hyn wrth gysylltu ag aelodau o'r gymuned) eu darparu gan dîm yr astudiaeth.

Rôl wirfoddol yw hon ond byddwch yn derbyn taliad bychan am eich amser. Bydd y rôl am wyth awr yr wythnos am gyfanswm o wyth mis.

Am ragor o wybodaeth (e.e. ynglŷn â'r rôl, y taliad am eich amser ac ati) cysylltwch â Gwenllian Moody ar moodyg@cardiff.ac.uk.

Dywedwch wrthym amdanoch eich hun, a chyflwynwch gais!

Os hoffech wneud cais am y rôl, anfonwch grynodedd hanner tudalen at Gwenllian Moody (moodyg@cardiff.ac.uk) yn egluro pam fod gennych ddiddordeb a pha rinweddau y credwch y gallwch ddod â nhw i'r rôl. Os byddwn yn meddwl y gallech fod yn addas cewch eich gwahodd am gyfweiliad grŵp anffurfiol.